# Ffeithiau Dyfrllyd

Dŵr yw 72% o'ch ymennydd.

Mae tua pedwar llond bath o ddŵr yn mynd i'n carthffosydd o do pob tŷ pan fydd yn bwrw glaw – mae hynny'n llawer o ddŵr!

Llyn artiffisial yw cronfa ddŵr. Mae'r rhain yn ddwfn, yn oer ac mae offer pwmpio ynddynt. Maent yn beryglus iawn.

PEIDIWCH Â NOFIO MEWN CRONFEYDD DŴR!

Dŵr yw 82% o'ch gwaed.

Dŵr môr hallt yw 97% o'r dŵr sydd yn y byd. Mae'r rhan fwyaf o'r 3% o'r dŵr ffres wedi'i ddal mewn capanau iâ ac felly mae llai nag 1% ar gael i ni ei ddefnyddio.

Mae coed yn amsugno llawer o ddŵr bob dydd. Gall coeden aeddfed amsugno 240 litr y dydd - sef tri llond bath! Gall plannu coed helpu i atal llifogydd.

Ar gyfartaledd, rŷn ni'n defnyddio tua 150 litr o ddŵr y dydd.

Yng Nghymru, ceir 1.4m o law y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae hynny'n cyfateb i daldra plentyn 8 oed, mewn glaw, dros Gymru gyfan!

Mae 1/3 o'r dŵr sy'n cael ei gyflenwi i'ch cartref yn cael ei olchi i lawr y toiled!